**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 27 Ebrill 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Thomas | A H Stevens | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): E J King, A Pugh

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S Pritchard

---

## 185. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatgelwyd unrhyw datganwyd buddiannau.

## 186. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr am waith y rheini sy'n ymwneud ag adeiladu'r ysbyty. Talwyd teyrnged ganddynt hefyd i swyddogion a gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen i'r gymuned, a diolchwyd iddynt.

## 187. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 188. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**189. Eitm Frys.**

Datganodd Arweinydd y Cyngor, yn unol â pharagraff 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ei fod yn meddwl y dylid ystyried yr adroddiad "Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol a Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol - Awdurdodiad i Newid ac Addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe" yn y cyfarfod hwn fel mater o frys.

**Rhesymau dros y brys:**
Adeiladu ysbyty ar frys yn sgîl Covid-19 i'w drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn yr wythnos sy'n dechrau 27 Ebrill 2020.

**190. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol ac FPR7 - Awdurdodiad i newid ac addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mary Jones lythyr a oedd yn cynnwys yr Adborth Craffu Cyn Penderfynu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**191. Rheol 19.1c y Weithdrefn Ariannol ac FPR7 - Awdurdodiad i newid ac addasu Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd yr Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn ceisio awdurdodiad, ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i addasu adeilad Elba, Stiwdios y Bae, Fabian Way, Abertawe yn Ysbyty Cynnydd Sydyn â 1000 o Welyau a chymeradwyo'r prosiect yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (RhGA) rhif 7 ac 19.1c.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r prosiect a arweinir gan y cyngor ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i addasu Adeilad Elba, Stiwdios y Bae, yn ysbyty cynnydd sydyn â 1000 o welyau ynghyd â'r goblygiadau ariannol cysylltiedig, a'u hychwanegu at y rhaglen gyfalaf (i gydymffurfio a RhGA 7 - ychwanegiad at y rhaglen gyfalaf)

2) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor, y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol gymeradwyo cost derfynol y prosiect ac ymrwymo i unrhyw gytundebau angenrheidiol (yn seiliedig ar y

cytundeb cydweithio drafft a gynhwysir yn Atodiad A yr adroddiad) i sicrhau y cyflwynir y prosiect ac er mwyn diogelu buddiannau'r cyngor;

3) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i adennill yr holl wariant sy'n gysylltiedig a chyflwyno'r prosiect o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn y lle cyntaf ac os yw'n angenrheidiol, o Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.04 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 27 Ebrill 2020 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | - |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 27 Ebrill 2020 |